Awst 2009

Annwyl Gyfaill

Cronfa Loteri Fawr – Ymateb i'r Dirwasgiad

Mae'r Gronfa Loteri Fawr yng Nghymru'n lansio pecyn o fesurau i gynorthwyo cymunedau a chefnogi sefydliadau trydydd sector yn ystod y dirwasgiad.

Mae £2.5miliwn o arian newydd wedi'i ddyrannu yng Nghymru gan Fwrdd DU y Gronfa Loteri Fawr. Dyma dair elfen y pecyn:

Dyfarniadau Newydd. Caiff ffrwd 'trywydd cyflym' newydd rhaglen Pawb a'i Le y Gronfa Loteri Fawr ei lansio'n benodol ar gyfer y dirwasgiad, gan gynnig grantiau hyd at £50,000 dros 2 flynedd, i'w defnyddio gan sefydliadau trydydd sector sy'n darparu gwasanaethau cynghori ar hyn o bryd. Gwahoddir ceisiadau gan sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau cynghori, gan gynnwys y meysydd canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

- Mwyafu incwm – cyngor ar fudd-daliadau
- Gwybodaeth ariannol
- Cyngor am ddyledion
- Iechyd meddwl
- Trais yn y cartref

Rheoli Grantiau'n Hyblyg. Ar hyn o bryd mae'r Gronfa Loteri Fawr yn monitro deiliaid grantiau presennol am unrhyw arwyddion y gallai canlyniadau eu prosiectau fod mewn perygl oherwydd effaith y dirwasgiad. 2 brosiect yn unig sy'n adrodd am anawsterau yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae prosesau rheoli grantiau'r Gronfa Loteri Fawr eisoes yn hyblyg iawn, ac mae staff y Gronfa Loteri Fawr yn ymwybodol o'r angen am ddefnyddio'r holl hyblygrwydd sydd ar gael o dan y cyfyngiadau presennol os yw prosiectau'n profi anawsterau. Ar ben hynny, bydd y Gronfa Loteri Fawr yn cyflwyno arian ychwanegol i'w atodi i ddyfarniadau deiliaid grantiau presennol lle gellir dangos bod prosiectau mewn perygl o ganlyniad uniongyrchol i'r dirwasgiad, a bydd hyd at £500,000 ar gael at y diben hwn. Byddwn yn cysylltu â deiliaid grantiau cyn bo hir gyda gwybodaeth fwy manwl am sut y bydd hyn yn gweithio.

Blaenoriaeth i Brosiectau sy'n Lleddfu Effaith y Dirwasgiad. Elfen derfynol y prosiect yw defnyddio hyblygrwydd rhaglen bresennol Pawb a'i Le sy'n ymateb i alw. Mae'r Pwyllgor gwneud dyfarniadau wedi cytuno i flaenoriaethu ceisiadau am brosiectau sy'n debygol o roi cefnogaeth i gymunedau wrthsefyll effaith y dirwasgiad. Caiff hyn ei roi ar waith yn sgil cyfarfod y Pwyllgor ym mis Medi, ac amcangyfrifir y dylai hyn arwain at grantiau hyd at £3 miliwn ar gyfer prosiectau a fydd yn darparu cefnogaeth uniongyrchol i'r cymunedau yr effeithir arnynt fwyaf gan y dirwasgiad.

Am fwy o wybodaeth am becyn dirwasgiad y Gronfa Loteri Fawr, ewch i **www.cronfaloterifawr.org.uk** neu ffoniwch ein llinell gwybodaeth ar **01686 611 700**. Bydd gwybodaeth ar gael ar-lein o ddydd Gwener 14 Awst.

Yn gywir,

Mike Walsh

Dirprwy Gyfarwyddwr (Polisi & Materion Cyhoeddus)

Cronfa Loteri Fawr
6ed Llawr
Rhif 1 Ffordd y Brenin
Caerdydd CF10 3JN
www.cronfaloterifawr.org.uk

Big Lottery Fund
6th Floor
1 Kingsway
Cardiff CF10 3JN
www.biglotteryfund.org.uk

T 029 2067 8200
Ff/F 029 2066 7275
A 029 2022 4834

Cadeirydd Cymru/
Wales Chair
Huw Vaughan Thomas

Cyfarwyddwr Cymru/
Wales Director
Ceri Doyle

Cadeirydd DU/UK Chair
Syr/Sir Clive Booth

Prif Weithredwr DU/
UK Chief Executive
Peter Wanless CB

Rydym wedi'n hymrwymo i ddod a gwir welliannau i gymunedau ac i fywydau'r bobl fwyaf anghenus

We are committed to bringing real improvements to communities and to the lives of people most in need

BUDDSODDWYR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Yn dyfarnu arian
Y Loteri Genedlaethol

Awarding funds from
The National Lottery®